



Asiantaeth
Safonau
Bwyd

food.gov.uk

Food
Standards
Agency

.....

Adroddiad i Senedd Cymru

.....

Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd:

**Adolygu Gweithrediad y System Apelio
yng Nghymru**

Chwefror 2023

Cynnwys

1. Crynodeb Gweithredol	3
2. Cyflwyniad	6
3. Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd	8
4. Effaith COVID-19 ar y Cynllun a'r Cynllun Adfer ar gyfer awdurdodau lleol	9
5. Adolygu Gweithrediad y System Apelio yng Nghymru	12
6. Cysondeb	16
7. Casgliadau	19
8. Crynodeb o Gamau Gweithredu o Adroddiad 2022	21
9. Argymhellion	23

1. Crynodeb Gweithredol

- 1.1. Mae [Deddf Sgorio Hylendid Bwyd \(Cymru\) 2013](#) (y Ddeddf) yn rhoi dyletswydd ar yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) i adolygu gweithrediad y system apelio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (y Cynllun) yn flynyddol. Yr adroddiad hwn yw'r nawfed adolygiad blynyddol o weithrediad y system apelio ac fe'i paratowyd i fodloni gofynion y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 28 Tachwedd 2021 a 27 Tachwedd 2022.
- 1.2. Busnesau bwyd â sgôr o '5' (Da lawn) yw 71.2 y cant o'r holl fusnesau bwyd â sgôr yng Nghymru. Mae 96.9 y cant o'r holl fusnesau bwyd â sgôr yng Nghymru yn fusnesau bwyd sy'n cydymffurfio, sef y rhai â sgôr o '3' (Boddhaol ar y cyfan), '4' (Da) neu '5' (Da lawn).
- 1.3. Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, mae pandemig COVID-19 wedi parhau i gael effaith ar ddarpariaeth rhaglenni arolygu arferol awdurdodau lleol a gweithrediad y Cynllun. Cyn pandemig COVID 19, roedd disgwyl i awdurdodau lleol gynnal yr holl reolaethau swyddogol a bennir mewn deddfwriaeth, ond yn ystod y pandemig, dargyfeiriwyd adnoddau awdurdodau lleol oddi wrth dimau bwyd i weithgareddau yn ymwneud â lleihau lledaeniad COVID-19. Rhannwyd cyngor ag awdurdodau lleol er mwyn cyfyngu cymaint â phosib ar nifer yr ymwelwyr mewn busnesau bwyd, ac er mwyn i awdurdodau lleol allu dargyfeirio adnoddau i waith adweithiol brys i fynd i'r afael â risgiau iechyd y cyhoedd cysylltiedig â bwyd a allai fod yn ddifrifol, ac i gamau iechyd y cyhoedd ehangach eraill a oedd yn ofynnol yn lleol yn ystod yr ymateb i bandemig COVID-19.
- 1.4. Mae'r ASB wedi llunio [Cynllun Adfer](#) (y Cynllun) ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2021 a 31 Mawrth 2023. Mae'r cynllun adfer yn ailgychwyn y gwaith o gynnal arolygiadau rheolaidd ar gyfer sefydliadau bwyd newydd a sefydliadau bwyd risg uchel a/neu sefydliadau bwyd nad ydynt yn cydymffurfio yn unol â [Chod Ymarfer Cyfraith Bwyd \(Cymru\)](#) (y Cod). Ar yr un pryd, mae'n cynnig hyblygrwydd ar gyfer sefydliadau risg is. Mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar weithrediad arferol y Cynllun, yn arbennig o ran y canlynol:

- llai o arolygiadau sydd wedi golygu bod sgoriau busnesau wedi aros yr un peth yn hirach a bod y dyddiadau arolygu yn hŷn;
- cynnydd yn nifer y busnesau y cyhoeddwyd eu bod yn ‘aros am arolygiad’ wrth i nifer y busnesau newydd a oedd yn cofrestru gynyddu.

1.5. Bu gostyngiad yn nifer yr arolygiadau yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig COVID-19 wrth i awdurdodau lleol geisio ailalinio ag amllder ymyriadau a darpariaethau eraill a nodir yn y Cod.

1.6. Yn unol â'r disgwyliadau yn y Cynllun, mae awdurdodau lleol wedi bod yn gweithio i ailalinio â'r amllder ymyrryd a darpariaethau eraill a nodir yn y Cod, er gwaethaf yr heriau niferus a wynebwyd yn ystod y cyfnod adfer, gan gynnwys pwysau ar adnoddau. Mae nifer yr apeliadau a ddaeth i law yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn wedi cynyddu'n sylweddol o gymharu â'r niferoedd dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae hyn i'w ddisgwyl gan fod nifer yr arolygiadau wedi cynyddu wrth i awdurdodau lleol wneud cynnydd yn erbyn y cynllun.

1.7. Er bod yr adolygiad wedi canfod y bu cynnydd mewn apeliadau, nid ydynt wedi dychwelyd yn llawn i'r lefelau cyn y pandemig COVID-19 oherwydd gostyngiad yn nifer y sgoriau a ddyfarnwyd, ac felly gostyngiad yn nifer yr apeliadau mewn perthynas â'r sgoriau hynny. Yn yr adroddiad ar gyfer 2018¹ cafwyd 100 o apeliadau, 94 yn adroddiad² 2019 a 98 yn adroddiad 2020³.

1.8. Yn yr adolygiad ar gyfer y cyfnod rhwng 28 Tachwedd 2021 a 27 Tachwedd 2022, canfuwyd y canlynol:

- cafwyd 75 o apeliadau
- arweiniodd 13 y cant (10) at newid sgoriau, gyda'r 10 ohonynt yn cynyddu
- penderfynwyd ar 95 y cant (71) o fewn y cyfnod gofynnol o 21 diwrnod

¹ <https://senedd.wales/laid documents/agr-ld10952/agr-ld10952-w.pdf> – 28 Tachwedd 2016 i 27 Tachwedd 2017

² <https://senedd.wales/laid documents/gen-ld11433/gen-ld11433-w.pdf> – 28 Tachwedd 2017 i 27 Tachwedd 2018

³ <https://senedd.cymru/laid documents/gen-ld13059/gen-ld13059 -w.pdf> – 28 Tachwedd 2018 i 27 Tachwedd 2019

- pennwyd pob apêl gan swyddogion awdurdodau lleol priodol nad oedd yn rhan o'r asesiad sgorio hylendid bwyd gwreiddiol.

1.9. Cyflwynwyd cyfres o weithdai cysondeb rhithwir rhwng Hydref 2022 a Ionawr 2023. Cymerodd 147 o swyddogion o bob rhan o Gymru ran yn y pum gweithdy, sy'n dangos y gwerth parhaus a roddir ar y cymorth a ddarperir ar gyfer gweithgareddau sy'n hyrwyddo cysondeb wrth roi sgoriau. Mae hyn yn sicrhau cadernid a gwytnwch y Cynllun.

1.10. Yn ogystal â hyn, lansiodd yr ASB seithfed Ymarfer Cysondeb Cenedlaethol (NCE) y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd ym mis Hydref 2022 am gyfnod o chwe wythnos. Fe wnaeth 91 y cant o awdurdodau lleol yng Nghymru gymryd rhan yn yr ymarfer.

1.11. Canfu'r adolygiad fod awdurdodau lleol yn cyflawni'r broses apelio yn unol â'r gofynion a'r canllawiau statudol, er gwaethaf y pwysau cystadleuol ar adnoddau.

1.12. Mae'r ASB wedi gwneud [chwe argymhelliad](#) sy'n berthnasol i weithrediad parhaus y system apelio yng Nghymru.

2. Cyflwyniad

- 2.1. Ym mis Tachwedd 2013, cyflwynodd Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 (y Ddeddf) Gynllun Sgorio Hylendid Bwyd (y Cynllun) statudol yng Nghymru. Roedd hyn yn adeiladu ar Gynllun anstatudol a lansiwyd yng Nghymru ym mis Hydref 2010.
- 2.2. Pwrpas y Cynllun yw galluogi defnyddwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am ble maent yn bwyta neu'n siopa am fwyd, a thrwy'r penderfyniadau hyn, annog busnesau i wella eu safonau hylendid. Mae'n gwneud hyn drwy ddarparu gwybodaeth i ddefnyddwyr (ar ffurf sgôr hylendid bwyd) am safonau hylendid busnesau bwyd adeg eu harolygu er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth hylendid bwyd. Mae'r sgôr hylendid bwyd a roddir yn adlewyrchu canfyddiadau'r arolygiad ac i ba raddau y mae'r busnes yn cydymffurfio â chyfraith bwyd.
- 2.3. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i gymryd rhan yn y cynllun ac yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau bwyd sy'n cyflenwi bwyd i'r defnyddiwr terfynol arddangos eu sgoriau hylendid bwyd. Mae'r Cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau sy'n cyflenwi bwyd tecawê yn uniongyrchol i ddefnyddwyr gyhoeddi datganiad dwyieithog ar rai deunyddiau cyhoedduswydd copi caled sy'n cyfeirio cwsmeriaid at y wefan sgoriau hylendid bwyd. Mae'r Cynllun hefyd yn gosod rhwymedigaeth ar weithredwyr busnesau bwyd i ddarparu gwybodaeth ar lafar am sgôr hylendid bwyd y busnes os gofynnir amdano. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol arolygu busnesau bwyd yn eu hardal a phennu sgoriau hylendid bwyd, gan ddefnyddio [meini prawf a gyhoeddwyd gan yr ASB](#). Yna rhoddir sticer (neu sticeri) i'r busnes bwyd sy'n dangos ei sgôr hylendid bwyd. Mae'n rhaid i'r busnes ei arddangos mewn man amlwg lle gall defnyddwyr ei ddarllen yn hawdd cyn iddynt ddod i mewn i'r sefydliad.
- 2.4. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu mesurau diogelu ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd, i sicrhau bod y Cynllun yn deg i fusnesau. Mae'r rhain yn cynnwys yr hawl i apelio yn erbyn eu sgôr hylendid bwyd os ydynt o'r farn ei bod yn annheg; yr hawl i ymateb a gyhoeddir ochr yn ochr â'r sgôr hylendid bwyd ar wefan yr ASB; a'r

gallu i ofyn am ymweliad ail-sgorio os ydynt wedi gwella'r safonau hylendid. O dan y Ddeddf, yr awdurdod lleol a ddyfarnodd y sgôr hylendid bwyd sy'n gyfrifoldeb am benderfynu ar apeliadau. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf yn caniatáu i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau sy'n galluogi person ar wahân i'r awdurdod lleol benderfynu ar apeliadau.

2.5. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) i gynnal adolygiad o'r modd y caiff y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd ei weithredu, a hynny blwyddyn ar ôl ei gyflwyno, a phob tair blynedd wedi hynny. At hynny, mae dyletswydd ar yr ASB i adolygu'r system apelio bob blwyddyn. Ers mis Chwefror 2015, mae adroddiadau wedi'u gosod gerbron Senedd Cymru ac anfonwyd copi at Weinidogion Cymru. Yna caiff yr adroddiadau eu cyhoeddi ar [wefan](#) Senedd Cymru.

2.6. Yr adroddiad hwn yw'r nawfed adolygiad blynyddol o weithrediad y system apelio ac fe'i paratowyd i fodloni gofynion y Ddeddf. Mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 28 Tachwedd 2021 a 27 Tachwedd 2022 ac mae'n cynnwys gwybodaeth a ddarparwyd gan bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

2.7. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn darparu argymhellion ar gyfer 2023/24 a diweddariad ar y [pedwar argymhelliad](#) a oedd wedi'u cynnwys yn adroddiad apeliadau 2022.


3. Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

3.1. Diben y Cynllun yw helpu defnyddwyr i wneud dewis gwybodus ynghylch ble maen nhw'n bwyta allan neu'n siopa am fwyd a, drwy'r dewisiadau hynny, annog busnesau bwyd i wella eu safonau hylendid. Mae'n gwneud hyn trwy roi gwybodaeth glir i ddefnyddwyr am safonau hylendid busnes bwyd pan gaiff ei arolygu, a hynny ar ffurf sgôr rhwng '0' (Angen Gwella ar Frys) a '5' (Da iawn). Yng Nghymru, caiff y Cynllun ei gynnal mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru.

3.2. Mae [gwybodaeth fanylach am y Cynllun](#) ar gael ar wefan yr ASB.

3.3. Ers i'r Cynllun statudol gael ei gyflwyno ym mis Tachwedd 2013, mae cydymffurfiaeth wedi gwella'n barhaus. Ym mis Tachwedd 2022, o'r 30,475 o fusnesau â sgôr yng Nghymru, cafodd 29,535 (96.9 y cant) sgôr o '3' (Boddhaol ar y Cyfan) neu uwch. Cafodd 21,688 (71.2 y cant) o fusnesau y sgôr uchaf o '5' (Da iawn) a dim ond 55 (0.2 y cant) o fusnesau a gafodd y sgôr isaf o '0' (Angen Gwella ar Frys).


3.4. Mae Ffigur 1 isod yn dangos y gwelliant parhaus hwn yn nosbarthiad sgoriau busnesau bwyd yng Nghymru o fis Tachwedd 2013 i fis Tachwedd 2022.



4. Effaith COVID-19 ar y Cynllun a'r Cynllun Adfer ar gyfer awdurdodau lleol

- 4.1. Drwy gydol pandemig COVID-19, mae'r ASB wedi addasu'r hyn y mae'n ei ddisgwyl gan awdurdodau lleol, gan gydnabod yr heriau a wynebwyd ganddynt wrth gyflawni eu swyddogaethau statudol mewn perthynas â bwyd tra bu'n rhaid iddynt hefyd flaenoriaethu diogelu cymunedau rhag COVID-19. Mae hyn wedi galluogi awdurdodau lleol i dargedu adnoddau lle mae'r risg uchaf neu at sefydliadau nad ydynt yn cydymffurfio, gan ohirio ymyriadau wedi'u cynllunio, yn enwedig ar gyfer sefydliadau risg isel. Gan fod y Cynllun wedi'i ategu gan raglenni ymyrraeth wedi'u cynllunio awdurdodau lleol, mae'n amlwg bod y dull gweithredu wedi effeithio ar weithrediad y Cynllun.
- 4.2. Ym mis Mai 2021, cytunodd Bwrdd yr ASB ar Gynllun Adfer yn nodi canllawiau a chyngor yr ASB i awdurdodau lleol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2021 a 31 Mawrth 2023. Y nod yw sicrhau bod adnoddau awdurdodau lleol yn cael eu targedu lle byddant yn ychwanegu'r gwerth mwyaf wrth ddarparu mesurau diogelu ar gyfer iechyd y cyhoedd a diogelu defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Un o amcanion allweddol y cynllun adfer yw galluogi'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd i symud tuag at weithredu yn y ffordd arferol a diogelu ei hygredd.
- 4.3. Ceir gwybodaeth fanylach am y Cynllun Adfer a'i effaith ar y Cynllun yn yr [Adroddiad i Senedd Cymru – Adolygu Gweithrediad y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Statudol a Gweithrediad y System Apelio yng Nghymru – Chwefror 2021](#) a'r [Adroddiad ar gyfer Senedd Cymru – Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd: Adolygu Gweithrediad y System Apelio yng Nghymru – Chwefror 2022](#).
- 4.4. Mae'r Cynllun Adfer yn cydnabod bod awdurdodau lleol yn dechrau o fannau cychwyn gwahanol o ran yr effaith y mae COVID-19 wedi'i chael hyd yma, yr heriau y byddant yn eu hwynebu yn ystod y cyfnod adfer a'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Mae'n nodi'n glir y dylai awdurdodau lleol weithio'n gyflymach, lle y gallant, wrth ail-alinio â'r amlderau ymyrryd a'r darpariaethau eraill a nodir yn y Cod.


4.5. Gan fod gwaith arolygu gan awdurdodau lleol yn sylfaen i'r Cynllun, mae effeithiau ar arolygiadau yn ystod y pandemig wedi effeithio ar y Cynllun. Mae Ffigur 2 isod yn dangos nifer y sefydliadau a gafodd sgôr yng Nghymru bob mis dros y pedair blynedd diwethaf.



4.6. Er bod y ffigurau hyn yn dangos cynnydd yn nifer y busnesau sy'n cael sgôr hyd at fis Tachwedd 2022, maent yn adlewyrchu'r effaith y cafodd COVID-19 ar adnoddau awdurdodau lleol drwy gydol 2020 a 2021. Roedd llawer o fusnesau wedi cau am gyfnodau sylweddol, ac effeithiodd hyn ar eu gallu i gynnal ymyriadau mewn busnesau bwyd, yn ogystal â'u gallu i gyflawni'r swyddogaethau gweinyddol sy'n cefnogi'r broses o gyhoeddi sgoriau ar wefan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. Mae nifer y sgoriau a gyhoeddir yn cynyddu'n raddol wrth i awdurdodau lleol weithredu'r Cynllun Adfer.

4.7. Yn ystod y pandemig, gwelwyd cynnydd sydyn yn nifer y busnesau a gyhoeddwyd fel rhai a oedd yn 'aros am arolygiad', gyda busnesau newydd yn aros am eu harolygiad cyntaf. Mae'r nifer hwn wedi bod yn gostwng wrth i'r Cynllun Adfer gael ei roi ar waith ac wrth i ymyriadau gael eu cynnal gan

awdurdodau lleol. Mae Ffigur 3 isod yn dangos nifer y busnesau y cyhoeddwyd eu bod yn ‘aros am arolygiad’ o fis Tachwedd 2019 i fis Tachwedd 2022.



4.8. Mae Ffigur 3 yn dangos, cyn y pandemig COVID-19, fod 662 o fusnesau yn aros am arolygiad ym mis Chwefror 2020. Gwelwyd y nifer uchaf o fusnesau yna ros am arolygiad ym mis Awst 2021, sef 4,596. Ym mis Tachwedd 2022, roedd 2,513 o fusnesau yn aros am arolygiadau.

4.9. Yn unol â'r Cynllun Adfer, mae awdurdodau lleol wedi bod yn arolygu sefydliadau bwyd newydd ac yn blaenoriaethu'r rheiny sydd â sgôr risg uchel a/neu nad ydynt yn cydymffurfio. Mae'n bosib y bydd y busnesau sy'n aros am arolygiad ar hyn o bryd yn cael eu hystyried yn rhai risg isel ar sail eu gweithgareddau neu efallai eu bod wedi'u heithrio⁴ rhag cael eu sgorio o dan y Ddeddf. Mae nifer y busnesau y cyhoeddwyd eu bod yn 'aros am arolygiad' bellach wedi dechrau lleihau eto wrth i nifer yr arolygiadau gan awdurdodau lleol gynyddu.

⁴ <https://www.legislation.gov.uk/wsi/2013/2903/regulation/5/made>

5. Adolygu Gweithrediad y System Apelio yng Nghymru

5.1. Mae'r Ddeddf yn cynnwys nifer o fesurau diogelwch ar gyfer busnesau bwyd er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn deg. Maent yn cynnwys yr hawl i weithredwr busnes bwyd apelio yn erbyn sgôr, 'hawl i ymateb', a'r cyfle i ofyn am arolygiad ailsgorio.

5.2. Gall gweithredwyr busnesau bwyd apelio i'r awdurdod lleol a ddyfarnodd y sgôr wreiddiol yn rhad ac am ddim, ar yr amodau canlynol:

- nid yw'r sgôr yn adlewyrchiad cywir o safonau hylendid bwyd y sefydliad adeg yr arolygiad
- ni chafodd y meini prawf sgorio eu cymhwyso'n gywir wrth gyfrifo'r sgôr hylendid bwyd.

5.3. Mae'n rhaid cyflwyno apêl o fewn 21 diwrnod i'r dyddiad y daeth y sgôr hylendid bwyd i law, ac mae'n rhaid ei chyflwyno'n ysgrifenedig ar y [ffurflen benodol](#).

5.4. O dan y Ddeddf, mae'r awdurdod lleol a ddyfarnodd y sgôr hylendid bwyd yn gyfrifol am benderfynu ar apeliadau a rhaid iddo hysbysu gweithredwr y busnes bwyd a'r ASB am y penderfyniad o fewn 21 diwrnod. Fel y nodir yn y Cod, rhaid i'r apêl gael ei hystyried gan swyddog awdurdodedig⁵ na fu'n ymwneud ag asesu'r sgôr hylendid bwyd wreiddiol sy'n destun apêl.

5.5. Yn ôl yr wybodaeth am apeliadau sgoriau hylendid bwyd ar gyfer y cyfnod 28 Tachwedd 2021 i 27 Tachwedd 2022:

⁵ <https://smartercommunications.food.gov.uk/connect/lm3TO100pg> – Unigolyn (boed yn un o swyddogion yr awdurdod gorfodi ai peidio) sydd wedi cael ei awdurdodi gan yr Awdurdod Bwyd yn ysgrifenedig, naill ai'n gyffredinol neu'n benodol, i weithredu o ran materion sy'n codi o dan y Rheoliad Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

- gwnaed 75 o apeliadau gan weithredwyr busnesau bwyd yng Nghymru ar draws 19 o'r 22 awdurdod lleol
- penderfynwyd ar 71 ohonynt o fewn y cyfnod gofynnol o 21 diwrnod, gyda phenderfyniad ar y pedwar arall yn cael ei wneud y tu hwnt i'r amserlen statudol
- gwnaed 50 o apeliadau gan weithredwyr busnesau bwyd gyda sgôr o '0' (Angen Gwella ar Frys), '1' (Angen Gwella yn Sylweddol) neu '2' (Angen Gwella).

5.6. Ar ôl penderfynu ar y 75 apêl, arhosodd 65 o'r sgoriau yr un fath. Arweiniodd 10 apêl ar draws chwe awdurdod lleol gwahanol at newid y sgôr.

5.7. Ar ôl penderfynu ar eu hapeliadau, o'r 4 busnes â sgôr o '1' (Angen Gwella yn Sylweddol), cynyddodd un i '2' (Angen Gwella), un i sgôr o '3' (Boddhadol ar y Cyfan) a dau i sgôr o '4' (Da). Cynyddodd y busnes a gafodd sgôr o '2' (Angen Gwella) i '3' (Boddhaol ar y Cyfan), o'r ddau fusnes a gafodd sgôr o '3' (Boddhaol ar y Cyfan), cynyddodd un i '4' (Da) a chynyddodd y llall i '5' (Da lawn). Cynyddodd y tri busnes a gafodd sgôr o '4' (Da) i gyd i '5' (Da lawn). Dangosir y 10 sgôr wedi'u gwella yn y tabl isod.

Gwelliant o ran y Sgoriau Cyn ac Ar ôl Apêl										
Sgôr Wreiddiol	1	1	1	1	2	3	3	4	4	4
Sgôr Newydd	2	3	4	4	3	4	5	5	5	5

5.8. O'r 75 o apeliadau a ddaeth i law gan fusnesau, roedd 21 wedi'u categoreiddio gan awdurdodau lleol fel bwytai/caffis/ffreuturiau, 13 fel siopau tecawê, 8 fel bwytai ac arlwywyr – arall, 8 fel tafarn/clwb, 8 fel manwerthwyr – arall, 6 fel safleoedd gofal, 4 fel archfarchnad/goruwchfarchnad, 2 fel unedau manwerthu bach, 2 fel unedau bwyd symudol, 1 fel gwesty/tŷ llety, 1 fel ysgol/coleg ac 1 fel gweithgynhyrchwr/pacwr.

5.9. Mae nifer yr ymyriadau a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer y cyfnod adrodd hwn wedi cynyddu'n sylweddol o gymharu â'r niferoedd

dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Fel y nodwyd yn adroddiad 2021, daeth 32 o apeliadau i law a chwblhawyd 5,305 o ymyriadau yn ystod y cyfnod adrodd. Ar gyfer adroddiad 2022, daeth 26 o apeliadau i law ar ôl 4,855 o ymyriadau. Mae adroddiad eleni ar gyfer 2023 yn dangos y bu 75 o apeliadau gyda 10,936 o ymyriadau yn cael eu cwblhau yn ystod y cyfnod adrodd.

5.10. Ar ôl arolygiad, bydd sgôr y busnes yn cael ei lanlwytho gan yr awdurdod lleol i'w chyhoeddi ar [wefan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd](#). Bydd busnesau sy'n cael sgôr o '5 – Da lawn' yn cael eu cyhoeddi cyn gynted ag y bydd yr wybodaeth yn cael ei lanlwytho. Bydd busnesau sy'n cael sgôr o 0-4 yn cael eu cyhoeddi 3-5 wythnos ar ôl dyddiad yr arolygiad er mwyn caniatáu amser i'r busnes apelio.

5.11. Os bydd gweithredwr busnes bwyd yn gofyn i'w sgôr gael ei chyhoeddi cyn i'r cyfnod apelio ddod i ben, gellir gwneud y cais hwn ar y [ffurflen berthnasol](#) a bydd yr awdurdod lleol yn adolygu'r cais ac yn cymryd y camau priodol.


5.12. Gall busnesau bwyd hefyd ofyn am arolygiad er mwyn ail-sgorio eu busnes o dan y Cynllun. Mae'r mesur hwn yn rhoi'r cyfle i fusnesau wella eu sgoriau cyn eu harolygiad bwriadedig nesaf, os ydynt wedi rhoi'r gwelliannau angenrheidiol ar waith.

5.13. Rhwng 28 Tachwedd 2021 a 27 Tachwedd 2022, cafodd awdurdodau lleol yng Nghymru 406 o geisiadau am arolygiadau ail-sgorio. Mae'r rhain yn cynrychioli 4.6 y cant o'r 8,787 o fusnesau bwyd sydd â sgôr o '0' i '4'. Dangosodd yr adolygiad y canlynol:

- cafodd 91.4 y cant (371) o'r busnesau hynny a ail-arolygwyd sgôr well o '3' neu uwch
- llwyddodd 93.8 y cant (381) i gael sgôr well o '3' neu uwch
- llwyddodd 55.9 y cant (227) o'r rheiny a ail-arolygwyd i gael y sgôr uchaf o '5'

- cafodd 1.9 y cant (8) o fusnesau sgôr is ar ôl cael eu hail-arolygu ac ni newidiwyd sgôr 6.7 y cant (27) ohonynt.
- cwblhawyd 96.1 y cant (390) o'r ail-arolygiadau o fewn y cyfnod gofynnol o dri mis.

5.14. Mae Ffigur 4 isod yn dangos y newid mewn sgoriau ar ôl cael arolygiad ail-sgorio ar draws busnesau bwyd yng Nghymru.



6. Cysondeb

6.1. Mae'n hanfodol bod swyddogion gorfodi o fewn awdurdodau lleol ac ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru yn gweithredu'r Cynllun yn gyson er mwyn sicrhau chwarae teg i fusnesau bwyd a darparu gwybodaeth ystyrlon i ddefnyddwyr.

6.2. Mae'r Grŵp Llywio CSHB Cymru gyfan yn grŵp cyswllt a sefydlwyd i weithio ar y cyd i helpu i weithredu'r Cynllun yn gyson, ei orfodi a'i ddatblygu yn y dyfodol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gredadwy, yn gyfredol ac yn deg.

6.3. Amcan y Grŵp Llywio yw trafod materion sy'n berthnasol i'r Cynllun, monitro'r broses o weithredu'r argymhellion a wneir i'r Senedd a nodi ac archwilio cyfleoedd i adolygu a gwella'r Cynllun.

6.4. Mae'r ASB yn darparu Cadeirydd ac Ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Grŵp Llywio ac mae'n cynnwys cynrychiolaeth o Lywodraeth Cymru a chynrychiolydd o bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Ar hyn o bryd, cynhelir cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn a chaiff amlder a fformat y cyfarfodydd eu hadolygu'n barhaus.

Argymhelliad 1: Bod yr ASB yn parhau i hwyluso a chefnogi gwaith Grŵp Llywio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yng Nghymru i sicrhau llwyddiant a datblygiad parhaus y Cynllun. Bod yr ASB yn adolygu amlder, aelodaeth a Chylch Gorchwyl y grŵp i sicrhau ei fod yn parhau i weithredu'n llwyddiannus.

6.5. Mae'r ASB wedi cynnig cyfle i swyddogion awdurdodau lleol loywi eu sgiliau yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn. Roedd hyn yn cynnwys digwyddiadau hyfforddi wedi'u hariannu a hwyluso'r seithfed Ymarfer Cysondeb Cenedlaethol (NCE) a lanswyd ym mis Hydref 2022 am gyfnod o chwe wythnos ar draws 343 o awdurdodau lleol sy'n darparu gwasanaethau hylendid bwyd ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

6.6. Cynigiodd yr ASB 5 gweithdy hyfforddi rhithwir i swyddogion awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am sgorio busnesau bwyd yng Nghymru rhwng mis Hydref 2022 a mis Ionawr 2023. Mewn pum gweithdy bedair awr o hyd, cyflwynwyd hyfforddiant yn seiliedig ar sicrhau cysondeb y Cynllun Sgorio i 147 o swyddogion o 20 o awdurdodau lleol yng Nghymru. I ddechrau ymrwymodd yr ASB i ddarparu pedwar gweithdy, ond oherwydd y galw, cynhaliwyd y pumed ym mis Ionawr 2023. Er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn cael ei gymhwyso'n gyson gan swyddogion gorfodi o fewn ac ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru, cymerodd gontractwyr a gyflogir gan awdurdodau lleol yng Nghymru ran yn y gweithdai hefyd.

6.7. Cyflwynodd y gweithdai nifer o senarios damcaniaethol y gallai swyddogion eu hwynebu yn ystod arolygiad. Roedd y senarios yn ymdrin ag amrywiaeth o fathau o fusnesau bwyd a sefyllfaoedd o gydymffurfio/diffyg cydymffurfio, gan roi cyfle i grwpiau bach o swyddogion drafod a sgorio'r senarios fesul un gan ddefnyddio Atodiad 1 y Cod. Roedd y senarios yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â thair elfen y broses arolygu sy'n llywio'r sgôr hylendid bwyd. Dyma'r elfennau:

- lefel gydymffurfio â gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd
- gofynion strwythurol,
- hyder mewn gweithdrefnau rheoli.

6.8. I ddechrau, cafwyd adborth cadarnhaol o'r digwyddiadau hyn, gan gadarnhau manteision cyfleoedd hyfforddi rhithwir gyda swyddogion yn gweithio'n fwy hyblyg. Fodd bynnag, roedd llawer o'r rheiny a oedd yn bresennol yn teimlo y byddai wedi bod yn fuddiol cael gwybod am y sgorau arfaethedig a'r sgôr hylendid bwyd ar gyfer pob senario yn ystod y gweithdai. Mae'r ASB ar hyn o bryd yn gwerthuso'r adborth a ddaeth i law a bydd adroddiad ar ganfyddiadau'r gweithdai yn cael ei lunio gan hwylusydd y cwrs.

Argymhelliad 2: Bod yr ASB yn parhau i ddarparu cefnogaeth i sicrhau bod pob swyddog awdurdod lleol sy'n sgorio busnesau bwyd o dan y Cynllun yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo cysondeb.

6.9. Ym mis Hydref 2022, lansiodd yr ASB y seithfed Ymarfer Cysondeb

Cenedlaethol (NCE) ar gyfer y CSHB. Cynhaliwyd yr ymarfer am gyfnod o chwe wythnos hyd at 25 Tachwedd 2022. Mae'r ASB wrthi ar hyn o bryd yn casglu'r canlyniadau er mwyn eu rhannu ag awdurdodau lleol, ynghyd â'r sgoriau disgwylidig a'r rhesymau drostynt. Cwblhawyd yr ymarfer gan 91 y cant o awdurdodau lleol yng Nghymru ac mae'r ASB yn paratoi adroddiad cryno i'w gyhoeddi ddechrau 2023.

Argymhelliad 3: Bod yr ASB yn adolygu canlyniadau'r seithfed Ymarfer Cysondeb Cenedlaethol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru ac yn gweithio gyda'r Grŵp Llywio i nodi'r angen am unrhyw gefnogaeth neu ganllawiau ychwanegol yn ôl yr angen.

6.10. Mae canllawiau statudol wedi'u llunio i roi cyngor manylach i awdurdodau lleol, i'w cynorthwyo i gymhwyso'r ddeddfwriaeth yn gyson. Cynhaliwyd adolygiad o'r canllawiau yn 2019/20 ond oherwydd bod gan awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru flaenoriaethau eraill yn ystod yr ymateb i bandemig COVID-19, cafodd hyn ei ohirio. O ystyried yr amser sydd wedi mynd heibio ers yr arolygiad cyntaf, mae'r cyhoeddiad wedi'i ohirio a bydd yr ASB yn cynnal adolygiad pellach o'r canllawiau yn ystod 2023.

Argymhelliad 4: Bod yr ASB, mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol, yn adolygu ac yn diwygio'r Canllawiau Statudol yn 2023 ar ran Gweinidogion Cymru yn ôl yr angen. Bydd y canllawiau wedi'u diweddarau yn helpu swyddogion awdurdodedig i gyflwyno Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 a'r Rheoliadau cysylltiedig yn llwyddiannus.

7. Casgliadau

7.1. Mae tystiolaeth a gasglwyd i gefnogi'r adolygiadau blynyddol ers cyflwyno'r Cynllun statudol yn 2013 wedi canfod yn gyson fod gweithredwyr busnesau bwyd yn parhau i ddefnyddio'r broses apelio a mesurau diogelu eraill a ddarperir gan y Cynllun. Mae'r 75 o apeliadau a ddaeth i law'r awdurdodau lleol yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn cyfrif am lai nag 1 y cant o'r 8,787 o fusnesau sydd wedi'u sgorio fel '0' (Angen Gwella ar Frys) i '4' (Da) ym mis Tachwedd 2022. Yn achos y gweithredwyr busnesau bwyd hynny sy'n gwneud apêl, mae 87 y cant o'r apeliadau wedi arwain at beidio newid sgôr busnes yn dilyn penderfyniad awdurdod lleol. Mae pob apêl wedi'i hystyried gan swyddog nad oedd yn ymwneud â dyfarnu'r sgôr wreiddiol. Byddai hyn yn awgrymu bod y broses o ystyried apeliadau yn wrthrychol.

7.2. Mae'r ASB wedi adrodd yn flynyddol ar y broses apelio ers i'r gofyniad gael ei gyflwyno ym mis Tachwedd 2013. Mae tystiolaeth a gasglwyd i gefnogi'r adolygiadau blynyddol wedi canfod yn gyson fod gweithredwyr busnesau bwyd yn parhau i ddefnyddio'r broses apelio a ddarperir gan y Cynllun. Serch hyn, ar gyfartaledd, dim ond 1 y cant o'r holl fusnesau bwyd â sgôr yng Nghymru sy'n apelio bob blwyddyn. Mae'r nawfed adolygiad blynyddol hwn hefyd wedi nodi, yn achos y gweithredwyr busnesau bwyd hynny sy'n gwneud apêl, fod tua 17 y cant o'r apeliadau ar gyfartaledd yn arwain at newid sgôr busnes yn dilyn penderfyniad awdurdod lleol.

Argymhelliad 5: Bod yr ASB yn parhau i weithio ac ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol i adolygu cysondeb yr adolygiadau blynyddol a darparu adroddiad blynyddol ar y broses o weithredu apeliadau yng Nghymru.

7.3. Canfu'r adolygiad fod awdurdodau lleol yn cyflawni'r broses apelio yn unol â'r gofynion a'r canllawiau statudol, er gwaethaf y pwysau cystadleuol ar adnoddau awdurdodau lleol.

7.4. Yn ystod cyfnod heriol i awdurdodau lleol, roedd y nifer o swyddogion a gymerodd ran mewn gweithdai cysondeb a gynhaliwyd rhwng mis Hydref 2022 a mis Ionawr 2023 yn dangos y gwerth parhaus a roddir ar y cymorth a ddarperir ar gyfer gweithgareddau sy'n hyrwyddo cysondeb wrth roi sgoriau. Mae hyn yn sicrhau cadernid a gwytnwch y Cynllun. Yn ogystal â hyn, ochr yn ochr â gofynion gwaith a blaenoriaethau cystadleuol eraill, cymerodd 91 y cant o awdurdodau lleol yng Nghymru ran hefyd yn y seithfed Ymarfer Cysondeb Cenedlaethol yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2022.

8. Crynodeb o Gamau Gweithredu o Adroddiad 2022

8.1. Mae'r adran hon yn ystyried sut y mae'r ASB wedi mynd i'r afael ag argymhellion, sy'n ymwneud ag adolygu a gweithredu'r system apelio yn 2022. Mae hyn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw argymhellion sydd heb eu rhoi ar waith.

8.2. Yn [Adroddiad ar y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd i Senedd Cymru: Adolygu Gweithrediad y System Apeliadau yng Nghymru](#) a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2022, gwnaed yr argymhellion canlynol:

Argymhelliad 1: Bod yr ASB ystyried defnyddio dulliau digidol mwy rhyngweithiol wrth gyflwyno gweithgareddau cysondeb.

Cam Gweithredu: Mae'r ASB wedi cynnal pum gweithdy cysondeb rhithwir ledled Cymru gyda 147 o swyddogion yn bresennol yn 2022/23. Bydd yr ASB yn parhau i gefnogi awdurdodau lleol i ddatblygu a threfnu digwyddiadau cysondeb yn ystod 2023/24. Bydd yr ASB hefyd yn ystyried pa dechnoleg ddigidol a allai fod ar gael i gynnal ymarferion cysondeb mwy rhyngweithiol ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol.

Argymhelliad 2: Bod yr ASB yn parhau i ddarparu cefnogaeth i sicrhau bod pob swyddog awdurdod lleol sy'n sgorio busnesau bwyd o dan y Cynllun yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo cysondeb.

Cam Gweithredu: Mae'r ASB wedi cynnal ymarferion cysondeb cenedlaethol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn 2022. Cynhaliwyd yr ymarfer cysondeb gan 20 awdurdod lleol yng Nghymru. Bydd yr ASB yn parhau i roi cymorth i swyddogion awdurdodau lleol sy'n sgorio busnesau o dan y Cynllun.

Argymhelliad 3: Bod yr ASB yn sicrhau yn ystod 2022/23 bod yr holl argymhellion sydd heb eu bodloni yn cael eu cwblhau.

Cam Gweithredu: Bydd yr ASB yn adolygu unrhyw argymhellion sy'n weddill ac yn datblygu'r rhain yn ôl yr angen.

Argymhelliad 4: Bod yr ASB yn gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i ystyried gwerth parhaus adolygiadau blynyddol a darparu adroddiad blynyddol ar weithredu'r broses apelio.

Cam Gweithredu: Bydd yr ASB yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid perthnasol yn 2023/24 i archwilio'r argymhelliad hwn ymhellach.

Argymhelliad 6: Bod yr ASB yn sicrhau yn ystod 2022/23 bod yr holl argymhellion sydd heb eu bodloni yn cael eu cwblhau.

9. Argymhellion

9.1. Mae'r ASB yn gwneud yr argymhellion canlynol mewn perthynas â gweithrediad parhaus y system apelio yng Nghymru ar gyfer 2023:

Argymhelliad 1:

Bod yr ASB yn parhau i hwyluso a chefnogi gwaith Grŵp Llywio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yng Nghymru i sicrhau llwyddiant a datblygiad parhaus y Cynllun. Bod yr ASB yn adolygu amlder, aelodaeth a Chylch Gorchwyl y grŵp i sicrhau ei fod yn parhau i weithredu'n llwyddiannus.

Argymhelliad 2:

Bod yr ASB yn parhau i ddarparu cefnogaeth i sicrhau bod pob swyddog awdurdod lleol sy'n sgorio busnesau bwyd o dan y Cynllun yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo cysondeb.

Argymhelliad 3:

Bod yr ASB yn adolygu canlyniadau'r seithfed Ymarfer Cysondeb Cenedlaethol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru ac yn gweithio gyda'r Grŵp Llywio i nodi'r angen am unrhyw gefnogaeth neu ganllawiau ychwanegol yn ôl yr angen.

Argymhelliad 4:

Bod yr ASB, mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol, yn adolygu ac yn diwygio'r Canllawiau Statudol yn 2023 ar ran Gweinidogion Cymru yn ôl yr angen. Bydd y canllawiau wedi'u diweddarau yn helpu swyddogion awdurdodedig i gyflwyno Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 a'r Rheoliadau cysylltiedig yn llwyddiannus.

Argymhelliad 5:

Bod yr ASB yn parhau i weithio ac ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol i adolygu cysondeb yr adolygiadau blynyddol a darparu adroddiad blynyddol ar y broses o weithredu'r broses apelio yng Nghymru.

Argymhelliad 6:

Bod yr ASB yn sicrhau bod yr holl argymhellion sydd heb eu bodloni yn cael eu symud ymlaen yn ystod 2023/24.